| | |
|---|---|
| **Adrodd i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **19 Rhagfyr 2024** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Helen Kilgannon, Gwasanaeth Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer 2023/2024** |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn sôn am Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer 2023/2024.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Hyrwyddo Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC) a rhoi hyder i Aelodau fod Sir Ddinbych wedi paratoi os bydd argyfwng yn codi. Mae GCARh-CGC yn sicrhau fod trefniadau digonol ar waith mewn perthynas â chynllunio rhag argyfwng o fewn y Cyngor ac mae'r adroddiad yn nodi'n benodol:

- Sut mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn cyfrannu at wydnwch a diogelwch cymunedau yn Sir Ddinbych
- Rhaglen waith bresennol y Gwasanaeth
- Y strwythur o fewn Cyngor Sir Ddinbych i ymateb i argyfwng neu Achos Brys
- Darpariaeth cynllunio rhag argyfwng y tu allan i oriau
- Hyfforddiant a Datblygu i staff mewn rolau Cynllunio Rhag Argyfwng

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor adolygu'r Adroddiad Blynyddol a rhoi sylwadau am gynnydd gwaith Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer 2023/24.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydweithio mewn partneriaeth ers sefydlu Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2014.

4.2 Mae'r Gwasanaeth yn ymgymryd â swyddogaethau'r Cynghorau o ran argyfyngau sifil posibl ac mae'n atebol i Fwrdd Gweithredol sy'n cynnwys uwch-swyddogion o'r Cynghorau hynny. Mae GCARh-CGC yn darparu gwasanaeth i sicrhau fod Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, 2004
- Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, 2015
- Rheoliadau Diogelwch Piblinellau, 1996
- Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd), 2019

4.2 Mae'r Gwasanaeth yn gweithio i:

- Leihau dyblygu gwaith ac ailadrodd tasgau
- Gwella'r arfer o gysoni'r gwaith a gwytnwch y timau
- Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn well drwy rannu cefnogaeth arbenigol a thasgau cyffredin
- Gwella cysondeb o ran ymateb rhwng awdurdodau
- Gwella sianeli cyfathrebu rhwng Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd ac awdurdodau lleol

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi'r gwaith y mae GCARh-CGC wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Nid yw'r penderfyniad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Cyfraniad blynyddol Cyngor Sir Ddinbych i'r gwasanaeth yw £83,401. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar gyfran o 14.865 % tuag at gyllideb flynyddol y gwasanaeth. Ers iddo ddechrau, mae'r gwasanaeth wedi lleihau cyfraniadau'r 6 awdurdod lleol o dros £300 mil.

6.2 Nid oes unrhyw gostau'n codi'n uniongyrchol o graffu ar yr adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi'u cynnal gydag eraill cyn y cyfarfod hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae costau'r gwasanaeth wedi'u nodi yn adran 6 o'r adroddiad, mae'r costau hyn wedi lleihau dros y blynyddoedd o ganlyniad i ddarparu'r gwasanaeth yn rhanbarthol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau yn uniongyrchol gysylltiedig â chraffu ar yr adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu wedi'u nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.3 a 7.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.